GWEITHDREFNAU GWEITHREDU SAFONOL AR GYFER Y DEFNYDD AGORED O DECHNOLEG ADNABOD WYNEBAU A GYCHWYNNIR GAN WEITHREDWR (OIFR)

Marcio amddiffynnol:	Swyddogol
Cynllun cyhoeddi Oes/Nac oes:	Nac oes
Teitl:	Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer y defnydd agored o Dechnoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR)
Fersiwn:	Fersiwn 0.6
Crynodeb:	Mae'n sefydlu gweithdrefnau ar gyfer defnyddio OIFR fel tacteg blismona yn ystod cynllun peilot OIFR.
Adran:	Is-adran Gwasanaethau Digidol
Dyddiad adolygu:	25/01/2022

Fersiwn	Dyddiad	Awdurdod	Tystiolaeth o gymeradwyo	Cofnod o newid
0.1	28.07.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Drafft Cychwynnol
0.2	29.07.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Mân ddiwygiadau
0.3	17.08.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Mân Ddiwygiadau
0.4	20.09.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Terminoleg genedlaethol
0.5	03.11.2021	Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau	Adolygiad Llywodraethu	Dim Diwygiadau
0.6	25.01.2022	Arweinydd yn yr Is-adran Gwasanaeth	Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher	Cymeradwyo'r Cynllun Peilot. Dim Diwygiadau

		au Digidol		

Cynnwys

1 Cyflwyniad 4
2 Cymhwyso 4
3 Terminoleg 4
5 Pryd a Ble y gellir defnyddio OIFR 5
6 Rhoi Gwybodaeth i'r Testun 8
7 Sut i ddefnyddio OIFR 9
Lansio OIFR 9
Dewis Rheswm/Seiliau/Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau/Lleoliad y Chwiliad 10
Cofnodi Delwedd Chwilota 10
Canlyniadau 11
Chwilio Delweddau o Unigolion 12
Archwiliadwyedd 13
Archwiliadwyedd Awtomatig – Storio ar y Llyfr Nodiadau Poced Electronig 15
8 Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau) 16
9 Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent 18
10 Rheoli Risg 18
11 Rolau Gweithredol OIFR 19
Tîm Rheoli OIFR 19
Gweithredwr 19
12 Diogelwch System OIFR 21
13 Cadw Data a Rheoli Data 21
14 Gwybodaeth gyswllt 21
15 Dogfennau Eraill 22

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir yn y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer OIFR yr ystyr a roddir iddynt yn adran 3 o'r Ddogfen Bolisi ar gyfer OIFR oni chânt eu diffinio fel arall.

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol hon yn esbonio'r gweithdrefnau safonol i'w mabwysiadu gan bersonél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wrth ddefnyddio'r OIFR i gefnogi'r dacteg blismona. Bydd cydymffurfio â'r Weithdrefn Weithredu Safonol yn helpu i sicrhau ymateb corfforaethol i'r defnydd o'r adnodd plismona hwn.

1.2 Yr hyn sy'n sbarduno'r gwaith o ddatblygu OIFR yw sicrhau bod swyddogion yr heddlu gweithredol ar y rheng flaen yn cael cymaint o wybodaeth a chudd-wybodaeth gywir â phosibl, fel y gallant gymhwyso'r Model Gwneud Penderfyniadau Cenedlaethol a gwneud y penderfyniadau gorau posibl yn y pen draw.

1.3 Bydd OIFR ar gael i swyddogion drwy eu dyfais symudol (Samsung Galaxy XCover Pro Enterprise) a ddosberthir gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent fel rhan o'r defnydd presennol o iPatrol.

1.4 Mae OIFR yn ei gwneud yn bosibl i'r Gweithredwr gofnodi delwedd o Destun a Chwilio am y ddelwedd hon mewn amser real fwy neu lai yn erbyn Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau o ddelweddau a gofnodwyd eisoes er mwyn eu helpu i adnabod unigolyn at ddiben plismona.

1.5 Mae OIFR wedi cael ei datblygu i integreiddio â nodweddion presennol iPatrol, gan gynnwys System Rheoli Cofnodion Niche, Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig.

2 Cymhwyso

2.1 Mae'n rhaid i holl swyddogion a staff Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, gan gynnwys teulu estynedig yr heddlu a'r rhai sy'n gweithio'n wirfoddol neu o dan gontract i'r Comisiynydd fod yn ymwybodol o holl bolisïau a gweithdrefnau cysylltiedig Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â nhw.

2.2 Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol hon yn gymwys yn benodol i swyddogion a staff yn y rolau canlynol: -

a) Pob swyddog gweithredol a phob aelod o staff yr heddlu, mewn lifrai neu dditectif, a'u goruchwylwyr sy'n rhan o'r broses o ddefnyddio OIFR;

b) Pob swyddog ac aelod o staff yr heddlu sy'n ymwneud ag unrhyw ymchwiliadau sy'n deillio o'r defnydd gweithredol o OIFR;

c) Tîm datblygu OIFR.

Noder: Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr.

3 Terminoleg

3.1 Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol hon yn canolbwyntio ar OIFR yn unig. Diffinnir y derminoleg sy'n ymwneud ag OIFR yn Nogfen Bolisi OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent.

4 Awdurdod i ddefnyddio OIFR

4.1 Mae'r awdurdod i ddefnyddio OIFR fel tacteg blismona wedi'i gefnogi gan yr Uwch-Swyddog Cyfrifol.

4.2 Cyn defnyddio OIFR, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru/Heddlu Gwent wedi bod yn rhan o'r broses o'i datblygu a'r defnydd posibl.

5 Pryd a Ble y gellir defnyddio OIFR

5.1 Ni ddylid defnyddio OIFR yn lle dulliau adnabod traddodiadol, megis cael sgwrs â'r unigolyn sydd wedyn yn rhoi ei enw sy'n cael ei gymharu â mynegeion yr heddlu i'w adnabod. Lle bynnag y bo modd, dim ond ar ôl i'r Gweithredwr ryngweithio â'r Testun y dylid defnyddio OIFR.

5.2 Nid yw OIFR yn disodli proses Adnabod Wynebau Ôl-weithredol bresennol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Ni chaniateir defnyddio OIFR i geisio adnabod unrhyw un o sgrin gyfrifiadurol na delwedd arall o'r fath.

5.3 Dim ond pan na fydd y Testun yn hysbys ac mae o leiaf un o'r **rhesymau** a'r **seiliau** dros ei defnyddio yn gymwys y caiff OIFR ei defnyddio.

5.4 Rhesymau dros ei defnyddio: -

a. Ni all y Testun roi ei fanylion (wedi marw, yn anymwybodol, analluedd drwy alcohol neu gyffuriau, iechyd meddwl neu rwystrau o ganlyniad i oedran).
b. Mae'r Testun wedi gwrthod rhoi ei fanylion.
c. Mae'n rhesymol amau bod y Testun wedi rhoi manylion anwir.

5.5 **'Ni all y Testun roi ei fanylion'.** Os na all y Testun roi ei fanylion oherwydd rhwystrau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu oedran neu os oes rhwystr ieithyddol amlwg sy'n atal hyn, bydd y Gweithredwr yn cynnal ymholiadau rhesymol (megis adnabod gofalwr priodol neu ddefnyddio llinell iaith) er mwyn hwyluso'r broses adnabod cyn defnyddio OIFR.

5.6 Seiliau dros ei defnyddio: -

Amheuir:

a. bod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd neu ei fod yn rhydd yn anghyfreithlon a bod angen gweithredu pellach gan yr heddlu.

b. bod yr unigolyn yn ddarostyngedig i amodau mechnïaeth, gorchymyn llys neu gyfyngiad arall a fyddai'n cael ei dorri pe bai yn y lleoliad ar y pryd.

c. mai unigolyn coll y tybir ei fod yn wynebu mwy o risg ydyw.

d. yr ymddengys bod risg y gall yr unigolyn achosi niwed iddo'i hun neu i eraill.

e. bod y Testun wedi marw neu cadarnhawyd ei fod wedi marw

5.7 **'Angen gweithredu pellach gan yr heddlu'.** Bydd y term hwn yn adlewyrchu natur yr ymchwiliad troseddol sy'n mynd rhagddo. Pan fo'n gyfreithlon ac yn angenrheidiol gwneud hynny, gall gynnwys yr angen i arestio'r unigolyn er mwyn cynnal ymholiadau plismona

pellach. Ar adegau eraill, efallai y bydd angen i unigolyn gadarnhau manylion, er enghraifft, er mwyn parhau ag ymchwiliad.

5.8 **'Unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg'.** Bydd y term hwn yn dibynnu ar ddiffiniad y Coleg Plismona o risg ganolig (neu uwch). Hynny yw asesir bod y risg o niwed i'r Testun neu i'r cyhoedd yn debygol ond nid yn ddifrifol. Gall y niwed fod yn gymwys yn yr un modd i'r Testun neu i unrhyw aelod arall o'r cyhoedd.

5.9 **'Ymddangos bod risg o niwed'**. Bydd y term hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen defnyddio OIFR i reoli'r risg o newid a nodwyd a bod angen i'r heddlu weithredu er mwyn rheoli'r risg o niwed.

Nodyn i Swyddogion

Mae'r canlynol yn enghreifftiau lle y gall OIFR helpu Heddluoedd i gyflawni eu dibenion plismona:

- helpu i ddod o hyd i bobl y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau a'u harestio
- helpu i adnabod pobl y mae cudd-wybodaeth yn awgrymu y gall fod risg o niwed iddyn nhw eu hunain neu i eraill (e.e., stelcwyr, terfysgwyr, unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu risg uwch, ac ati)

5.10 Atgoffir Gweithredwyr am bwysigrwydd cyfathrebu tactegol effeithiol a bod yn rhaid i unrhyw gamau gael eu cymryd yn unol â'r Model Gwneud Penderfyniadau Cenedlaethol.

5.11 Ni ellir defnyddio grym i gael Delwedd Chwilota a bydd y defnydd o OIFR yn seiliedig ar yr angen i adnabod y Testun.

5.12 Caiff camerâu fideo a wisgir ar y corff eu defnyddio i gofnodi'r defnydd o OIFR at ddibenion archwilio.

5.13 Pan ddefnyddir OIFR, mae cyfrifoldeb ar y swyddogion dan sylw i ymchwilio i gadarnhau pwy yw'r person drwy ddefnyddio'r ffyrdd priodol a chyfreithlon sydd ar gael iddynt.

5.14 Os na ellir adnabod Testun neu os bydd Testun yn methu â chadarnhau pwy ydyw, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn gyfystyr â throsedd ac nid yw o reidrwydd yn ei wneud yn agored i gael ei arestio. Rhaid i swyddogion fod mewn sefyllfa i gyfiawnhau'r defnydd o unrhyw bwerau ac unrhyw gamau a gymerwyd a bod sail gyfreithlon dros wneud hynny.

5.15 Dim ond lle mae gan y Gweithredwr fynediad cyfreithlon a diben cyfreithlon i ddefnyddio OIFR y caiff ei defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys mannau cyhoeddus a phreifat.

5.16 Bydd y defnydd o OIFR yn cael ei nodi fel defnydd angenrheidiol yn ôl y wybodaeth a'r gudd-wybodaeth wrth ystyried y rheswm a'r seiliau dros ei defnyddio a'r achos sy'n cefnogi'r posibilrwydd o adnabod person. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r swyddog hefyd ystyried y disgwyliadau rhesymol sydd gan aelodau'r cyhoedd o ran preifatrwydd pan fyddant mewn lle cyhoeddus a phreifat. Mae'r disgwyliadau o ran preifatrwydd yn uwch yn achos rhai

mannau a'r bobl y disgwylir iddynt fod mewn rhai mannau a hynny oherwydd eu natur, nag ydynt ar gyfer mannau a phobl eraill.

6 Rhoi Gwybodaeth i'r Testun

6.1 Mae'r adran hon yn cwmpasu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i'r Testun wrth ddefnyddio OIFR ac ar ôl defnyddio OIFR.

6.2 Lle bynnag y bo modd, bydd y Gweithredwr yn hysbysu'r Testun ei fod/bod yn bwriadu defnyddio OIFR ac mae'n rhaid rhoi manylion am y rheswm a'r seiliau dros ei defnyddio.

6.3 Mae'n rhaid i'r Gweithredwr gofnodi unrhyw bryderon a godir gan y Testun ynglŷn â'r defnydd o OIFR yn y maes testun rhydd sy'n ymwneud â'r amgylchiadau.

6.4 Bydd y Gweithredwr yn hysbysu'r Testun na chaiff ei wybodaeth ei rhannu ag unrhyw drydydd parti ac y caiff y Ddelwedd Chwilota a'r Templed Biometrig eu dileu'n awtomatig ar unwaith.

6.5 Bydd y Gweithredwr yn defnyddio'r rhestr fer isod i'w helpu pan fydd yn rhyngweithio â'r Testun cyn cael y Ddelwedd Chwilota: -

Rheswm dros ei defnyddio
Manylion y Swyddog
Seiliau dros ei defnyddio
Esboniad na fydd y ddelwedd yn cael ei chadw, a bod rhagor o wybodaeth ar wefan technoleg adnabod wynebu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent
Cadarnhad o bwy sy'n derbyn y wybodaeth – ni chaiff gwybodaeth ei datgelu i drydydd partïon

6.6 Pan ddefnyddir OIFR, mae'n rhaid i'r Gweithredwr sicrhau ei fod/bod yn gwneud hynny'n gyfreithlon, ac mewn modd priodol a chymesur. Mae'n rhaid i Weithredwyr gydymffurfio â'r Cod Moeseg bob amser. Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi taflen wybodaeth i aelodau o'r cyhoedd sydd wedi bod yn destun OIFR.

6.7 Dylid hefyd gynnig rhagor o wybodaeth am y dechnoleg i unrhyw Destun, o dan amgylchiadau arferol. Dylid rhoi manylion cyswllt tîm technoleg adnabod wynebau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i unrhyw un sy'n gofyn am wybodaeth ychwanegol am OIFR (FRT@South-Wales.police.uk).

6.8 O ystyried y potensial am Ffactorau Testun sy'n ymwneud ag oedran, bydd angen rhoi sylw penodol i bwysigrwydd nodi'r rhai sydd o dan 18 oed yn seiliedig ar risg yn unol â dogfennau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, gyda ffocws arbennig ar sicrhau bod achos llawn o ran anghenraid.

7 Sut i ddefnyddio OIFR

Lansio OIFR

7.1 Defnyddir OIFR drwy'r Cymhwysiad iPatrol presennol ar ddyfais symudol Samsung.

7.2 Ar ôl gosod OIFR, bydd logo FRApp yn ymddangos ar sgrin hafan iPatrol. Mae pedwar pennawd ar iPatrol:

7.3 Mae OIFR yn dod o dan y pennawd SEARCH fel eicon nodwedd. *(Ar y gwaelod ar y chwith*) Unwaith y bydd OIFR wedi'i ddewis ac wedi'i lansio, bydd y Gweithredwr yn gweld 4 eicon mawr, sy'n nodi nodweddion FRApp. *(Ar y Gwaelod ar y dde)*

7.4 Nid yw nodweddion LOCATE nac ENROL wedi'u datblygu eto ac nid ydynt yn weithredol ar hyn o bryd.

7.5 Er mwyn chwilio drwy ddefnyddio OIFR, dewiswch yr eicon IDENTIFY. Yna, bydd sgrin ganllaw yn ymddangos. Bydd y sgrin hon yn ymddangos bob tro y defnyddir OIFR. Mae'n rhoi canllaw ar weithredu OIFR yn effeithiol ac yn atgoffa'r Gweithredwr am ei bwerau/phwerau cyfreithiol. *(Isod)*



Dewis Rheswm/Seiliau/Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau/Lleoliad y Chwiliad

7.6 Ar ôl gwasgu'r botwm NEXT, bydd OIFR yn dechrau ar y cam chwilio. Bydd hyn yn gofyn i'r Gweithredwr ddewis y rheswm a'r seiliau dros ei defnyddio, Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a chofnodi lleoliad y chwiliad (*Isod*). Fel gyda nodweddion eraill iPatrol, os na chanfyddir Lleoliad GPS, rhoddir blwch testun rhydd a bydd angen i'r Gweithredwr nodi'r lleoliad â llaw. *(Isod)*



7.7 Unwaith y bydd y Gweithredwr yn gwneud pob un o'r tri dewis, bydd OIFR yn caniatáu iddo gofnodi'r ddelwedd er mwyn i OIFR chwilio yn erbyn y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a ddewiswyd.

Cofnodi Delwedd Chwilota

7.8 Ar ôl i'r Gweithredwr ddewis y Seiliau, y Rheswm, y Gronfa Ddata Cyfeirio/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a Lleoliad y Chwiliad, bydd y dudalen isod o 'Top Tips' yn ymddangos, a fydd yn rhoi cyngor ar sut i gael y ddelwedd orau bosibl er mwyn i OIFR adnabod wyneb.



7.9 Mae camera'r ddyfais wedi cael ei gyflunio i sicrhau bod y ddelwedd yn unol ag OIFR ac nad yw'n cael ei chadw ac na fydd ar gael i'w hadalw'n ddiweddarach.

7.10 Rhoddir opsiwn 'ceisio eto', i'w ddefnyddio os na fydd y Ddelwedd Chwilota a gofnodwyd yn addas, er enghraifft os yw'n aneglur, ond ar ôl dewis yr opsiwn hwn, caiff y ddelwedd flaenorol ei dileu. *(Isod ar y chwith)*

7.11 Pan fydd y Gweithredwr wedi cofnodi delwedd addas, bydd dewis yr opsiwn SEARCH yn dechrau'r broses chwilio, yn erbyn y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a ddewiswyd ar y dudalen flaenorol. (*Isod ar y dde*)



7.12 Ni chaiff y ddelwedd a gofnodwyd ei storio ar y ddyfais nac mewn unrhyw le ar gymhwysiad iPatrol ac ar ôl gwasgu SEARCH, RETRY neu CANCEL, ni fydd modd adalw'r ddelwedd mwyach.

Canlyniadau

7.13 Bydd y canlyniadau a ddychwelir yn Ddelweddau o Unigolion sy'n cyfateb orau i'r Ddelwedd Chwilota. Dim ond delweddau o'r Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a ddewiswyd a gaiff eu dychwelyd.*(Isod)*



7.14 Y Gweithredwr sy'n penderfynu a oes unrhyw un o'r chwe Delwedd o'r Unigolyn a ddychwelir yn adnabyddadwy fel y Testun. Bydd y chwiliad bob tro yn dychwelyd y chwe Delwedd debycaf o'r Ymgeisydd hyd yn oed os nad delwedd y Testun yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau a ddewiswyd. Ar y cam hwn, ni chyflwynir unrhyw enw na gwybodaeth bersonol i'r Gweithredwr.

7.15 Os chwilir yn erbyn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau o luniau a dynnwyd yn y ddalfa, mae'n bwysig nodi y gall fod nifer o Ddelweddau o'r un person, a hynny am fod y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau o luniau a dynnwyd yn y ddalfa yn cynnwys delweddau ar wahân bob tro y mae unrhyw berson a gynhwysir wedi cael ei gadw yn y ddalfa.

Chwilio Delweddau o Unigolion

7.16 Os bydd y Gweithredwr o'r farn bod Delwedd o'r Unigolyn yn Gyfatebiad Posibl, mae'n bosibl chwilio am ragor o fanylion drwy agor y Ddelwedd o'r Unigolyn. Yna, bydd sgrin chwilio yn ymddangos sy'n caniatáu i'r Gweithredwr benderfynu pa systemau i'w chwilio. Caiff y systemau i'w chwilio eu pennu yn ôl diben plismona'r Gweithredwr. *(Isod ar y chwith)*

7.17 Cyn i'r chwiliad ddechrau, bydd y Gweithredwr hefyd ar gael i gymharu'r Ddelwedd Chwilota a'r Ddelwedd o'r Unigolyn. (*Isod ar y dde*)





7.18 Yna, bydd OIFR yn cyflwyno nodwedd chwilio safonol iPatrol, a fydd yn caniatáu i'r Gweithredwr fynd drwy gofnodion Niche yn y ffordd arferol. *(Isod)*





Archwiliadwyedd

7.19 Er mwyn sicrhau y gellir archwilio'r defnydd o OIFR yn briodol a chynnig y tryloywder a'r oruchwyliaeth briodol, mae gofyniad archwilio gorfodol wedi'i gynnwys.

7.20 Mae hyn ar ffurf dau fotwm 'NO MATCH' a 'MATCH' sy'n ymddangos ar waelod y sgrin Manylion Personol. Mae'n rhaid dewis un o'r botymau hyn i gofnodi canlyniad unrhyw chwiliad a wneir o ganlyniad i OIFR

7.21 Os bydd y Gweithredwr yn penderfynu, o ganlyniad i chwilio manylion y Ddelwedd o'r Unigolyn, nad oes cyfatebiad i'r Testun, mae'n rhaid dewis NO MATCH. Bydd hyn yn gofyn i'r Gweithredwr roi cadarnhad. *(Isod)* Wedyn, bydd y Gweithredwr yn dychwelyd i'r Delweddau gwreiddiol o'r Unigolyn ond bydd y Ddelwedd o'r Ymgeisydd a ddewiswyd yn flaenorol bellach wedi'i thywyllu.



7.22 Os bydd y Gweithredwr yn penderfynu nad oes yr un o'r Delweddau o'r Unigolyn yn cyfateb i'r Testun, dylai ddewis 'DISMISS ALL'. *(Isod ar y chwith)* Wedyn, gofynnir i'r Gweithredwr gadarnhau a yw am fwrw ymlaen.Bydd sgrin Archwilio ofynnol yn ymddangos er mwyn i'r Gweithredwr gofnodi rhyw, oedran ac ethnigrwydd y Testun ynghyd ag unrhyw destun rhydd. *(Isod ar y dde)*





7.23 Ar ôl llenwi'r meysydd gofynnol a gwasgu 'COMPLETE' ar waelod y sgrin, mae'r defnydd o OIFR bellach wedi dod i ben.

7.24 Os yw'r opsiwn 'MATCH' a drafodir uchod wedi cael ei ddewis, unwaith eto bydd yn ofynnol i'r Gweithredwr roi cadarnhad ac os cytunir ar hynny bydd ffurflen ofynnol yn ymddangos. Mae rhestr o ddewisiadau 'Canlyniad Cyfatebiad Cadarnhaol' wedi'i chynnwys. *(Isod ar y chwith)* Mae cwymplen o ganlyniadau posibl yn ymddangos a bydd angen i'r Gweithredwr ddewis un a'i ddogfennu. (*Isod ar y dde*)

7.25 Yn achos delweddau â Chyfatebiad a Heb Gyfatebiad, bydd y swyddog yn nodi unrhyw bryderon a godir gan y Testun yn y maes testun rhydd a, lle y bo'n briodol, unrhyw fanylion perthnasol eraill am y ffordd y penderfynwyd ymdrin â'r achos ac unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i'r defnydd o OIFR.



Archwiliadwyedd Awtomatig – Storio ar y Llyfr Nodiadau Poced Electronig

7.26 Mae'r gallu i archwilio'n effeithiol ac atebolrwydd o ran y defnydd o OIFR yn hollbwysig er mwyn sicrhau tryloywder a chadw hyder y cyhoedd. Yng ngoleuni hyn, mae'r defnydd o OIFR yn creu cofnod archwilio yn awtomatig, a gofnodir yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr.

7.27 **A. Chwiliad Adnabod OIFR**

Mae'r cofnod hwn yn cael ei fewnosod yn awtomatig i Lyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr cyn gynted ag y caiff y botwm chwilio ei wasgu.

Cyn gwasgu'r botwm chwilio, ni roddir unrhyw wybodaeth sy'n adnabod unigolyn ar gyfer unrhyw un o'r Delweddau o Unigolion.

Bydd y cofnod hwn yn cofnodi'n awtomatig stamp dyddiad ac amser, lleoliad GPS neu leoliad a gofnodwyd â llaw a bydd yn rhestru rhifau adnabod Niche yr unigolion a ddychwelwyd fel rhan o'r chwiliad.

Nid oes modd i'r Gweithredwr olygu na newid y cofnod hwn.

7.28 **B. Cofnod Adnabod OIFR a Welwyd**

Bydd y cofnod ychwanegol hwn yn cofnodi'r Ddelwedd o Unigolyn a ddewiswyd gan y Gweithredwr ac yna ei chwiliad o Niche.

Bydd y cofnod hwn hefyd yn cofnodi unrhyw un o systemau eraill yr heddlu a chwilir, e.e., PNC.

Os chwilir sawl Delwedd o Unigolyn, yna caiff sawl cofnod chwilio ei greu i adlewyrchu hyn.

7.29 **C. Cyfatebiad Adnabod gan OIFR**

Caiff y cofnod hwn ei greu os dewisir yr opsiwn “No Match”. Bydd cofnod y Llyfr Nodiadau Poced Electronig yn cofnodi'r amgylchiadau a gwybodaeth monitro'r Testun.

Y cynnwys sy'n ymddangos o gwymplen a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

Maes testun rhydd, lle mae'r Gweithredwr yn cofnodi unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall, gan gynnwys unrhyw bryderon a godwyd wrth ddefnyddio OIFR.

7.30 **D. Dim Cyfatebiad Adnabod gan OIFR**

Caiff y cofnod hwn ei greu os dewisir yr opsiwn “Match”. Fel uchod, mae'r cofnod hwn yn adlewyrchu mewnbwn y Gweithredwr.

Y cynnwys sy'n ymddangos o gwymplen a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

Maes testun rhydd, lle mae'r Gweithredwr yn cofnodi unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall, gan gynnwys unrhyw bryderon a godwyd wrth ddefnyddio OIFR

FRApp Identify Search EPNB Entry



FRApp Identify Viewed Record EPNB Entry

FRApp Identify Match EPNB Entry



FRApp Identify No Match EPNB Entry



7.31 Mae'r broses awtomataidd o gwblhau cofnodion yn y Llyfr Nodiadau Poced Electronig yn darparu nodwedd archwilio sy'n caniatáu i'r defnydd o OIFR gael ei fonitro a'i werthuso. Mae'r cofnodion a geir yn (C) a (D) uchod yn gyson â gofynion archwilio Stopio a Chwilio presennol iPatrol.

8 Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau)

8.1 Bydd OIFR yn defnyddio lluniau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a dynnwyd yn y ddalfa a lluniau Heddlu De Cymru o unigolion coll. Caiff y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau eu storio ar y system technoleg adnabod wynebau yn hytrach nag ar Ddyfais OIFR y Gweithredwr.

8.2 Mae'r Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn cynnwys cronfa ddata o'r holl luniau a dynnwyd yn y ddalfa yn ardal yr heddlu. Mae hefyd yn cynnwys unigolion coll (y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg) ar gyfer ardal Heddlu De Cymru.

8.3 Mae'r Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn dyblygu'r delweddau sy'n cael eu storio'n gyfreithlon ar hyn o bryd yn System Rheoli Cofnodion Niche (system rheoli cofnodion troseddol Heddlu De Cymru), sef ffynhonnell y lluniau a dynnwyd yn y ddalfa.

8.4 Bydd y Gweithredwr yn dewis yn rhagweithiol y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau i'w defnyddio. Gall ddewis un o'r Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a grybwyllir isod neu'r ddwy ohonynt, yn dibynnu ar yr angen i ddefnyddio OIFR.

9 Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent

9.1 Asesiadau; Cyn defnyddio OIFR, bydd angen i'r asesiadau canlynol gael eu creu, eu hadolygu a'u diwygio, lle y bo angen: -

(i) Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data* (Adolygu/Diwygio/Mabwysiadu);

(ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb* (Adolygu/Diwygio/Mabwysiadu).

Noder: *Mae unrhyw asesiad a restrir uchod sy'n dangos `Adolygu/Diwygio/Mabwysiadu' eisoes wedi'u creu gan dîm Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Bydd angen ystyried pob un ar sail achos unigol er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn dal i fod yn briodol ac yn ddigonol ar gyfer defnyddio OIFR.

10 Rheoli Risg

10.1 Dylid cynnal asesiad risg o bob defnydd o OIFR yn unol â gweithdrefn Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Dylid cydbwyso'r risg ddisgwyliedig i swyddogion a'r cyhoedd â'r wybodaeth a'r gudd-wybodaeth gyffredinol sydd ar gael ar y pryd, y ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig ag unigolion sydd ar y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau (e.e., difrifoldeb troseddau a marcwyr rhybudd sy'n gysylltiedig â'r defnydd o drais, cario arfau a thuedd i ddianc, ac ati), yr amgylchedd ffisegol ar adeg defnyddio OIFR, amseriad a thensiwn cymunedol ac unrhyw ffactorau eraill sy'n ymddangos yn berthnasol.

10.2 Mater i'w benderfynu gan y Gweithredwr fydd lefel yr adnoddau, gan gynnwys unrhyw gymorth wrth gefn sydd ei angen i gefnogi pob defnydd.

10.3 O ystyried natur ymwthiol y defnydd o OIFR a phrosesu data biometrig, mae'n hollbwysig y gall y Gweithredwr ymateb i Gyfatebiad a chyflawni'r diben gorfodi'r gyfraith ar gyfer defnyddio OIFR.

10.4 Mae'n rhaid i bob un o swyddogion Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent gydymffurfio â gofynion Cymorth Cyntaf Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a, lle y bo'n gymwys, ofynion hyfforddiant diogelwch swyddogion sy'n gymwys ac mae'n rhaid i'w hyfforddiant fod yn gyfredol. Mae'n rhaid i bob un o swyddogion a staff Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent sy'n ymwneud ag OIFR gael hyfforddiant OIFR cyn ei defnyddio.

11 Rolau Gweithredol OIFR

Tîm Rheoli OIFR

11.1 Mae'n rhaid i OIFR gael ei hategu gan strwythur rheoli clir. Diffinnir y rolau canlynol at ddibenion llunio strwythur rheoli hierarchaidd priodol: -

a) Yr Uwch-Swyddog Cyfrifol sydd â rheolaeth strategol dros gynllun peilot OIFR. Bydd yr Uwch-Swyddog Cyfrifol yn cydgysylltu â swyddogion ar reng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru lle y bo angen.

b) Mae Prif Uwch-arolygydd yr Adran Gwasanaethau Digidol yn cadeirio'r Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg ac mae'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu effeithiol ac atebolrwydd am gynllun peilot OIFR.

c) Mae gan swyddog arweiniol Prosiect Technoleg Adnabod Wynebau'r Adran Gwasanaethau Digidol reolaeth dactegol dros gynllun peilot OIFR ac mae'n gyfrifol am ei gweithredu'n dactegol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y defnydd o OIFR a'r ffordd y caiff ei gweithredu'n dactegol yn dal i fod yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur drwy gydol cynllun peilot OIFR, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd y mesurau diogelwch sydd ar waith pan fydd OIFR yn cael ei defnyddio.

Gweithredwr

11.2 Y Gweithredwr yw'r swyddog sy'n gweithredu OIFR, sy'n gyfrifol am gadarnhau'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio OIFR ac ystyried Delweddau o Unigolion ar gyfer Cyfatebiadau Posibl.

11.3 Caiff Gweithredwyr hyfforddiant manwl cyn defnyddio OIFR yn weithredol.

11.4 Mae'n rhaid bod Gweithredwyr yn deall OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau, sut mae'n perfformio a pha effaith y gallai Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Amgylchedd ei chael.

11.5 Gall Gweithredwyr fod mewn lifrai neu ddillad plaen ond mae'n rhaid i'r defnydd o OIFR fod yn agored.

11.6 Wrth ddefnyddio OIFR, mae'n rhaid i Weithredwyr sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n gyfreithlon, ac mewn modd priodol a chymesur. Rhaid i swyddogion gydymffurfio â'r Cod Moeseg bob amser. Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi taflen wybodaeth i aelodau o'r cyhoedd sydd wedi bod yn destun OIFR.

11.7 Mae'n rhaid i'r Gweithredwr wneud y penderfyniad terfynol ei hun ynghylch a oes Cyfatebiad. Wrth wneud eu penderfyniadau, mae'n rhaid i Weithredwyr roi sylw dyledus i'r tebygolrwydd bod Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System neu'r Amgylchedd wedi dylanwadu ar y Delweddau o Unigolion a ddychwelir.

11.8 Pan ddefnyddir OIFR, mae cyfrifoldeb ar y swyddogion dan sylw i ymchwilio i gadarnhau pwy yw'r person drwy ddefnyddio'r ffyrdd priodol a chyfreithlon sydd ar gael iddynt.

11.9 Dylai swyddogion bob amser geisio gwneud ymholiadau digonol i'w bodloni eu hunain am eu seiliau dros arestio neu gadw rhywun yn y ddalfa. Os byddant yn wynebu unigolyn sy'n gwrthod ufuddhau a'u bod yn credu'n ddiffuant, o dan yr amgylchiadau, fod yn rhaid iddynt ddefnyddio eu pwerau i arestio unigolyn/cadw unigolyn yn y ddalfa cyn i unrhyw wiriadau eraill allu cael eu gwneud, a bod hyn yn arwain at ddefnyddio'r pwerau hynny, dylid gwneud gwiriadau pellach (yn ôl yr angen) cyn gynted ag y bo'n rhesymol

ymarferol, er mwyn i'r penderfyniad i arestio unigolyn/cadw unigolyn yn y ddalfa gael ei adolygu heb oedi diangen.

11.10 Os na ellir adnabod Testun neu os bydd Testun yn methu â chadarnhau pwy ydyw, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn gyfystyr â throsedd ac nid yw o reidrwydd yn ei wneud yn agored i gael ei arestio. Rhaid i swyddogion fod mewn sefyllfa i gyfiawnhau'r defnydd o unrhyw bwerau ac unrhyw gamau a gymerwyd a bod â sail gyfreithlon dros wneud hynny.

11.11 Pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn dewis arfer eu hawl i osgoi'r defnydd o OIFR, atgoffir Gweithredwyr nad yw hyn yn drosedd. Nid oes gan yr heddlu unrhyw bwerau cyfreithiol i gymell aelodau o'r cyhoedd i fod yn destun OIFR. Nid yw hyn yn golygu na all neu na ddylai Gweithredwyr, na swyddogion eraill sy'n chwarae rôl gynorthwyol, siarad ag aelod o'r cyhoedd fel y byddent yn ei wneud o dan unrhyw amgylchiadau eraill pan fydd ymddygiad neu bresenoldeb rhywun yn codi amheuon na defnyddio unrhyw bŵer plismona arall lle y bo hynny'n briodol.

12 Diogelwch System OIFR

12.1 Caiff OIFR ei rheoli a'i defnyddio drwy Gonsol Rheoli Cymwysiadau diogel ac nid yw ar gael drwy unrhyw storfa na chatalog o gymwysiadau masnachol.

12.2 Unwaith y caiff ei defnyddio ar ddyfais, mae'r ddyfais honno hefyd yn rhan o fframwaith diogelwch trylwyr, strwythur cyfrinair a phroses ardystio.

12.3 Er mwyn defnyddio OIFR ar y ddyfais, bydd yn cysylltu â gweinydd Heddlu De Cymru drwy Rwydwaith Preifat Rhithwir sydd unwaith eto wedi'i ddilysu.

12.4 Caiff Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau y chwilir yn eu herbyn eu storio ar y system technoleg adnabod wynebau, sef gweinydd diogel unigol nad oes gan y Gweithredwr fynediad ato.

13 Cadw Data a Rheoli Data

13.1 Mae'n rhaid i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent sicrhau y caiff unrhyw ddata personol sy'n gysylltiedig ag OIFR eu prosesu'n gyfreithlon ac yn unol â Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae hyn yn golygu: -

Yn benodol i OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau

a) Delwedd o'r Testun fel y'i cofnodwyd gan OIFR (Delwedd Chwilota) – sy'n cael ei dileu ar unwaith ar y Ddyfais OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau.

b) Templed Biometrig o Ddelwedd Chwilota – yn cael ei ddileu ar unwaith yn y system technoleg adnabod wynebau

c) Delweddau o Unigolion a'r Templed Biometrig (a ddelir ar y system technoleg adnabod wynebau) – yn dilyn yr un cyfnodau cadw â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu ar gyfer System Rheoli Cofnodion Niche

Llyfr Nodiadau Poced Electronig

d) Llyfr Nodiadau Poced Electronig – cyfnod cadw gwybodaeth bersonol yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (a nodir yn fanwl yn yr Adolygiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data mewn perthynas â'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig), heb gynnwys y Ddelwedd Chwilota.

System Ffynhonnell – Lluniau a Dynnwyd yn y Ddalfa

e) Gweler y ddogfen 'Review of the Use and Retention of Custody Images', a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Chwefror 2017 (argymhelliad 4)

14 Gwybodaeth gyswllt

14.1 Gellir cysylltu â thîm technoleg adnabod wynebau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: FRT@South-wales.police.uk.

15 Dogfennau Eraill

15.1 Mae rhagor o ddogfennau ar gael sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol sy'n berthnasol i dechnoleg adnabod wynebau. Nodir y dogfennau hyn isod.

a) Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer Rheoli Gwybodaeth; www.app.college.police.uk/appcontent/information-management;

b) Y Model Gwneud Penderfyniadau Cenedlaethol; www.app.college.police.uk/app-content/nationaldecision-model;

c) Rheoli Cudd-wybodaeth Genedlaethol; www.app.college.police.uk/appcontent/intelligence-management;

d) Cod Moeseg y Coleg Plismona; www.app.college.police.uk/code-ofethics;

e) Strategaeth Biometreg y Swyddfa Gartref – Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018; www.gov.uk/government/publications/home-office-biometrics-strategy;

f) Dyfarniad yr Uchel Lys – R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl De Cymru [2019] EWHC 2341 (Gwein); www.judiciary.uk/wpcontent/uploads/2019/09/bridges-swp-judgment-Final03-09-19-1.pdf.